

Trosolwg o'r Cyngor a gwybodaeth am sut i wneud cais.



WYT TI'N CARU FFILMIAU?



WYT TI EISIAU LLEISIO DY FARN A DY SYNIADAU?



FYDDI DI RHWNG 10 A 18 OED YM MIS MEDI 2022?

"Rwy'n teimlo'n fwy o ran o'r diwydiant sydd wedi gwneud iddo deimlo'n llawer mwy hygyrch. Mae'r Cyngor wedi fy synnu i go iawn – faint mae'n ei golygu i gael bod yn rhan o'r math yna o gymuned o bobl sydd â breuddwydion a dyheadau tebyg."

Rhian, Cyngor Ieuenctid Cymru

Fel aelod o'r Cyngor, fe fyddi di'n ymuno â grŵp o bobl o gyffelyb fryd o bob rhan o'r wlad ac yn ein helpu i wneud rhaglen Into Film yn ddeniadol, yn hygyrch ac yn ddiddorol i bobl ifanc.

Fe gei di'r cyfle i roi adborth ar bethau amrywiol; o wefan Into Film, i ba ffilmiau rydyn ni'n eu dangos mewn digwyddiadau; o sut rydym ni'n cefnogi sinemâu, i roi gwybod i bobl ifanc am yrfaedd ym myd ffilm.

Rydyn ni eisiau i ti ddweud dy farn wrthym ni – beth wyt ti'n hoffi a beth nad wyt ti'n hoffi, a sut gallwn ni gael mwy o bobl ifanc i wyllo ffilmiau, meddwl am ffilmiau, a chreu ffilmiau!

Beth gei di:

- Cyfle i ddylanwadu ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn dy ranbarth di a ledled y Deyrnas Unedig.
- Cyfle i fod yn rhan o Gyngor Ieuenctid lle byddi di'n cwrdd â phobl ifanc eraill sydd ag angerdd am ffilmiau.
- Y cyfleoedd cyntaf i weld cynnwys, gweithgareddau a chystadlaethau newydd Into Film.
- Cyfle i ddatblygu sgiliau allweddol, fel cyfathrebu, gwaith tîm a datrys problemau.

Ni allwn dderbyn ceisiadau gan bobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref neu sy'n mynychu ysgol breifat am mai ffocws ein strategaeth yw gwasanaethu a chefnogi ysgolion sy'n cael eu hariannu gan y wladwriaeth.

Ymuna â ni i fod yn aelod o'n Cyngor Ieuenctid!

Beth yw'r Cyngor?

Mae gennym ni 5 Cyngor Ieuenctid sy'n rhan o'n Cyngor ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

Dyma'r 5 Cyngor rhanbarthol:

- Gogledd a Chanolbarth Lloegr – yn seiliedig yn Salford ac yn cwmpasu ardaloedd gogledd a chanolbarth Lloegr.
- De Lloegr – yn seiliedig yn Llundain ac yn cwmpasu de-ddwyrain a de-orllewin Lloegr.
- Cymru – yn seiliedig yng Nghaerdydd ac yn cwmpasu Cymru gyfan.
- Yr Alban – yn seiliedig yng Nghaeredin ac yn cwmpasu'r Alban yn gyfan.
- Gogledd Iwerddon – yn seiliedig yn Belfast ac yn cwmpasu Gogledd Iwerddon yn gyfan.

Trosolwg o'r Cyngor a gwybodaeth am sut i wneud cais.**Fel aelod o dy banel rhanbarthol, fe fyddi di'n:**

- **Mynychu** ar-lein neu wyneb yn wyneb. Mae'n debygol y byddwn yn cynnal un cyfarfod wyneb yn wyneb yn ystod blwyddyn y Cyngor. Rydyn ni ar waith ag addasu a datblygu ein cynlluniau fel ein bod yn dilyn rheoliadau rhanbarthol.
 - Bydd angen i rai dan 18 oed fod ag oedolyn yn bresennol yn y cefndir ond nid ar gamera, ac yn achos cyfarfodydd wyneb yn wyneb, bydd angen i rai dan 18 oed gael eu gollwng a'u casglu gan oedolyn.
 - Os bydd angen cymorth technegol arnat i fynychu cyfarfodydd ar-lein, fe allwn ni helpu. Paid â gadael i hynny dy rwystro!
 - Bydd Into Film yn talu am unrhyw gostau teithio ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

- **Dweud** wrthym ni beth yw dy farn am amrywiaeth eang o bynciau yn ymwneud â ffilmiau.
- **Gofyn** ar ein gweithgareddau newydd a chymryd rhan mewn sesiynau cyn iddyn nhw gael eu lansio.
- **Rhoi cynnig** ar ein gweithgareddau newydd a chymryd rhan mewn sesiynau cyn iddyn nhw gael eu lansio.
- **Ymrwymo** i fod yn aelod o dy Gyngor rhanbarthol am un flwyddyn, o fis Awst 2021 i fis Gorffennaf 2022, gyda'r posibilrwydd o barhau am yr ail flwyddyn ar ôl cwblhau'r flwyddyn gyntaf.

Os wyt ti dros 18 oed, bydd gofyn i ti gael gwiriad DBS. Mae hyn yn safonol i unrhyw oedolyn sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda rhai dan 18 oed.

Bydd Into Film yn esbonio'r broses syml hon, ac yn talu'r costau, os cei dy wahodd i ymuno â'r Cyngor.

I gael gwybod sut i wneud cais, cer i'r dudalen nesaf.

Mae Cyngor Ieuenctid Into Film wedi bod yn cael ei gynnal ledled y Deyrnas Unedig am sawl blwyddyn ac yn ystod yr amser yma rydyn ni wedi cefnogi pobl ifanc o bob cefndir, gan gynnwys pobl ifanc sy'n byw ag anabledd neu sydd ag anhawster dysgu. Rydyn ni'n gweithio ac yn trafod gyda'r rhieni/gwarcheidwaid a'r bobl ifanc i geisio gwneud y Cyngor mor gynhwysol â phosib.

Os wyt ti'n cael dy dderbyn i'r cynllun, byddwn yn gofyn am unrhyw ffofia, trigger, neu bethau eraill y byddai'n dda i ni fod yn ymwybodol ohonyn nhw – os hoffet ti rannu hynny gyda ni.

Os oes gen ti unrhyw gwestiynau ynglŷn â chynllun y Cyngor neu os hoffet ti gael sgwrs anffurfiol cyn gwneud cais, mae croeso i ti gysylltu â yac@intofilm.org



Credit: Aelodau o Banel Ieuenctid Alban yn cymryd rhan mewn gweithgareddau

Dyddiad Cau Derbyn Ceisiadau: 23:59, 6 Mehefin 2022 Mae gen ti 4 ffordd i wneud cais – dim ond UN o'r isod sydd angen i ti wneud. Ond rhaid i BOB ymgeisydd lenwi ffurflen cyfle cyfartal 'Dyma Fi'.



OPSIWN 1 Yn Ysgrifenedig

Teipia dy atebion i'r cwestiynau yn y ffurflen gais (Adran 1) a llenwa ffurflen 'Dyma Fi'. Mae'r cyfan i'w cael drwy'r ddolen yma: intofilm.tfaforms.net/4911884



OPSIWN 2 Ar PowerPoint / Google Slides neu debyg

Cymer olwg ar y cwestiynau isod a chrea gyflwyniad PowerPoint / Google Slides neu debyg, a rho ateb i bob un o'r cwestiynau isod. Mae croeso i ti anfon PDF o dy sleidiau os yw'n haws!

Wedyn cer i'r ffurflen gais, llenwa Adran 2 – ffurflen Dyma Fi, wedyn cer i Adran 3 i lanlwytho dy sleidiau ac wedyn cyflwyno dy gais. Fe elli di wneud hyn drwy'r ffurflen gais, sydd i'w gweld fan hyn: intofilm.tfaforms.net/4911884



OPSIWN 3 Anfona Fideo i Ni

Cymer olwg ar y cwestiynau isod a chrea fideo byr sy'n rhoi dy atebion i bob cwestiwn.

Wedyn cer i'r ffurflen gais, llenwa Adran 2 – ffurflen Dyma Fi, wedyn cer i Adran 3 i lanlwytho dy fideo ac wedyn cyflwyno dy gais. Fe elli di wneud hyn drwy fynd i'r ffurflen gais, sydd i'w gweld fan hyn: intofilm.tfaforms.net/4911884



OPSIWN 4 Sain yn Unig

Cymer olwg ar y cwestiynau isod a chrea ffeil sain fer (gall hyn gael ei wneud drwy Voice Memo ar dy ffôn) sy'n rhoi dy atebion i bob cwestiwn.

Wedyn cer i'r ffurflen gais, llenwa Adran 2 – ffurflen Dyma Fi, wedyn cer i Adran 3 i lanlwytho dy ffeil sain ac wedyn cyflwyno dy gais. Fe elli di wneud hyn drwy fynd i'r ffurflen gais, sydd i'w gweld fan hyn: intofilm.tfaforms.net/4911884

Os na elli di lanlwytho dy fideo, ffeil sain neu sleidiau ar y Ffurflen Gais o dan Adran 1, mae yna ffordd arall: gelli di anfon dy ffeil atom ni drwy We Transfer drwy ddilyn y cyfarwyddiadau isod.

Cofia lenwi ffurflen cyfle cyfartal Dyma Fi o dan Adran 2 y Ffurflen Gais hefyd. Mae ar gael fan yma: intofilm.tfaforms.net/4911884

Sut i anfon dy gais ar ffurf PowerPoint, Fideo neu Sain os na elli di ei atodi i'r ffurflen gais.

I anfon y cais ar ffurf PowerPoint/Sleidiau, Sain neu Fideo:

1. Gyda gwarcheidwad/rhiant, cer i www.wetransfer.com (does dim angen i ti danysgrifio).
2. Clicia ar fotwm 'Add your files' ar yr ochr chwith a dewisa'r PowerPoint/Sleidiau neu'r clip Sain neu Fideo rwy'ti eisiau ei anfon, wedyn clicia 'Open'.
3. Yn y bocs oddi tano lle mae'n dweud 'Email to', rho yac@intofilm.org ac am resymau diogelu, rho gyfeiriad e-bost dy warcheidwad/rhiant yn y bocs oddi tano. Gall rhai dros 18 oed ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost eu hunain.
4. Yn y bocs 'Message', gelli di ysgrifennu neges fer i gyd-fynd â dy sleidiau, sain neu fideo, a rho dy enw cyntaf, y Cyngor rhanbarthol rwy'ti'n gwneud cais

i fod yn rhan ohono, a rhan gyntaf cod post dy gartref (e.e. SA1). Wedyn clicia 'Transfer' i anfon y clip. Gall hyn gymryd ychydig eiliadau.

5. Ar ôl i'r clip a'r neges gael eu hanfon, bydd dy warcheidwad/rhiant yn derbyn e-bost o gadarnhad, neu fe fyddi di'n derbyn e-bost o gadarnhad os wyt ti dros 18 oed.

Os oes angen unrhyw help arnat i gael gafael ar y ffurflen, ei llenwi neu ei hanfon, anfona e-bost atom ni drwy riant/gwarcheidwad neu'n uniongyrchol os wyt ti dros 18 oed, i yac@intofilm.org neu ffonia **033 0313 7600**.

Methu â llenwi'r adrannau isod drwy'r arolwg ar-lein yma? Argraffwch y fersiwn pdf o'r ffurflen o fan yma: www.intofilm.org/yac, wedyn tynnwch lun ohoni a'i hanfon atom drwy e-bost drwy riant/gwarcheidwad neu'n uniongyrchol os wyt ti dros 18 oed: yac@intofilm.org neu ei hanfon drwy'r post i **Into Film, 31 Islington Green, London, N1 8DU, England**.

Os oes unrhyw broblem arall yn codi, anfona e-bost atom ni i yac@intofilm.org ac fe wnawn ni ddod o hyd i ffordd i'w datrys!

Cwestiynau Ffurflen Gais y Cyngor Ieuenctid

Os wyt ti'n llenwi'r rhain yn ysgrifenedig, cer i'r arolwg i'w llenwi fan hyn:

infofilm.tfaforms.net/4911884

1. Beth wyt ti'n gobeithio ei gael o fod yn aelod o'r Cyngor Ieuenctid?

Awgrym: gall hyn fod yn ymwneud â dy ddiddordeb yn y diwydiant ffilm, neu gall fod yn ymwneud â ti a sut all dy helpu i ddatblygu sgiliau allweddol.

2. Pam wyt ti eisiau bod yn aelod o dy Gyngor rhanbarthol? – Meddylia am 3 sgil a cheisia eu cysylltu nhw â phrofiadau.

Awgrym: meddylia sut rwyt ti wedi datblygu dy sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu, datrys problemau, ymchwilio, trafod a threfnu, a cheisia roi enghraifft i ni o pryd/sut gefaist ti gyfle i roi cynnig ar y sgiliau yma.

3. Pam wyt ti'n meddwl ei fod yn bwysig i Into Film gael Cyngor Ieuenctid?

Awgrym: edrycha'n ôl ar y wybodaeth am Into Film a'n datganiad cenhadaeth a'r math o weithgarwch rydyn ni'n ei wneud. Fe allet ti hyn oed edrych ar ein gwefan i gael syniadau – www.infofilm.org

4. Pwy wyt ti'n eu hedmygu/parchu fwyaf ym myd ffilm a pham?

Awgrym: ceisia esbonio pam wyt ti'n eu hedmygu/parchu – beth sy'n eu gwneud nhw'n fodel rôl i ti.

5. Pa fater yn ymwneud â ffilmiau hoffet ti drafod yng nghyfarfod Cyngor Ieuenctid Into Film a pham?

Awgrym: ceisia feddwl am beth wyt ti'n teimlo'n angerddol a sut fyddai dy ddiddordeb yn y maes yma yn dy helpu i wneud argraff arnom ni.

6. Pa bynciau neu weithgareddau sydd o ddiddordeb i ti yn yr ysgol / coleg / dy amser dy hun, a pham?

Awgrym: rydyn ni eisiau gwybod mwy amdanat ti a pham wyt ti'n hoffi pethau penodol, felly ceisia roi ambell enghraifft i ni o brofiadau neu brosiectau / darnau o waith rwyt ti wedi mwynhau eu gwneud yn yr ysgol/coleg neu yn dy amser dy hun.

Pob Lwc!